# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar adroddiad blynyddol y cynllun partneriaeth llywodraeth leol ar 3 Tachwedd 2004, a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, ar 23 Tachwedd 2004

**At William Graham:**

Addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch ar y pwyntiau a godwyd gennych yn ystod y ddadl ddiweddar ar adroddiad blynyddol y cynllun partneriaeth llywodraeth leol 2003-04.

Yn gyntaf, cyfeiriaf at eich pwynt ynghylch ariannu'r heddlu. Nid yw cyfrifoldeb dros yr heddlu wedi'i ddatganoli. Er hynny, deallaf fod Edwina Hart wedi cyflwyno papur ynghylch ariannu'r heddlu i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Bydd y papur yn egluro bod awdurdodau'r heddlu yn derbyn cyllid heb ei neilltuo gan y Llywodraeth mewn dwy ffrwd. I gychwyn, ceir grant yr heddlu a delir gan y Swyddfa Gartref. Yn ogystal, ceir grant cymorth refeniw ac ardrethi annomestig a delir drwy Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog yn Lloegr a Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghymru. Ar ben y ddwy ffrwd hynny, ceir cyfres o grantiau penodol y mae'r Swyddfa Gartref yn gyfrifol am eu dyrannu ond y gall awdurdodau heddlu Cymru wneud cais i'w cael. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Grant Cymorth Refeniw a ddarperir i awdurdodau heddlu Cymru yn 2005-06 yn rhoi cynnydd o 4 y cant o'i gymharu â'r ddarpariaeth yn 2004-05. Er hyn, gall y ffigur hwn newid i gymryd i ystyriaeth yr arian a drosglwyddir i'r Swyddfa Gartref ar gyfer mentrau canolog.

Y llynedd, paratodd Llywodraeth y Cynulliad setliad cynnar ar gyfer llywodraeth leol. Dyma'r tro cyntaf i'r setliad terfynol gael ei baratoi cyn y Nadolig ac fe'i paratowyd rhyw chwech i wyth wythnos yn gynharach na'r blynyddoedd blaenorol.

Rwyf wedi ysgrifennu at Syr Michael Lyons i ofyn am gyfarfod cynnar er mwyn amlinellu safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ar gydbwysedd cyllid llywodraeth leol yng nghyd-destun cylch gorchwyl adolygiad Syr Michael.

Mae nifer o fentrau ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â sipsiwn-teithwyr yng ngoleuni'r ‘Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid’ a gynhaliwyd y llynedd gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad. O ran llety, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig sy'n ymwneud â rheoli gwersylla heb ganiatâd a bydd yn cyhoeddi'r canllawiau terfynol maes o law. Rydym yn gwahodd tendrau ar gyfer gwaith ymchwil i'r galw am lety i sipsiwn a theithwyr yng Nghymru, ynghyd â'r cyflenwad. Byddwn yn ailgychwyn ar y gwaith o gyfrif carafanau sipsiwn a theithwyr ddwywaith y flwyddyn a byddwn yn ymgynghori ar fersiwn diwygiedig cylchlythyr 2/94 y Swyddfa Gymreig, ‘Safleoedd Sipsiwn a Chynllunio’. Cafodd y Mesur Tai Gydsyniad Brenhinol ar 18 Tachwedd a bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd ati mewn ffordd strategol i bennu anghenion sipsiwn a theithwyr ac i fodloni'r anghenion hynny. Bydd yn rhoi dyletswydd ar bob cyngor sir/cyngor bwrdeistref sirol i asesu anghenion llety sipsiwn a theithwyr yn eu hardaloedd ac i lunio strategaeth fel rhan o'i strategaeth dai gyffredinol yn nodi sut y byddant yn bodloni'r anghenion hynny. Efallai y byddai'n briodol trafod y materion hyn yn y cyngor partneriaeth. Fodd bynnag, mae'n bosib y byddai'n well aros tan i ni gael canlyniadau'r prosiect ymchwil ar lety yr haf nesaf cyn trafod y mater.

Mae'r setliad llywodraeth leol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn adlewyrchu'r pwysau ychwanegol y mae awdurdodau tân ac achub Cymru yn eu hwynebu. Rydym hefyd yn trafod â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch trosglwyddo adnoddau yn sgil datganoli, a hynny ar ben ein cyllideb gyfredol o £5m ar gyfer diogelwch tân cymunedol sy'n ategu

mentrau diogelwch tân yng Nghymru, megis y timau atal tanau bwriadol. At ei gilydd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod gan y gwasanaeth yng Nghymru adnoddau digonol i ateb y galwadau newydd. Mae'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth yn pwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant fel rhan o system datblygu personol integredig. Yn ogystal â'r cyfleusterau a'r hyfforddiant penigamp a ddarperir yn genedlaethol gan Goleg y Gwasanaeth Tân, mae Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cytuno y gall Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fwrw ymlaen â chanolfan hyfforddi newydd, o dan brosiect PFI. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu dros £15m o gymorth refeniw. Bydd y prosiect yn bodloni gofynion hyfforddi staff mewn lifrai a staff eraill Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn rhannu arferion gorau ac yn codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân yn y rhanbarth drwy wasanaethau addysg a hyfforddiant.

Er nad yw budd-daliadau tai wedi'u datganoli, mae'r Cynulliad yn monitro effaith y prosiect braenaru i weld a fydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar bolisïau tai datganoledig. Mae'r swyddogion mewn cysylltiad agos â swyddogion yng Nghonwy ac awdurdodau cyfagos y Gogledd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi comisiynu ymchwil annibynnol i werthuso canlyniadau'r prosiect ac mae'n paratoi cyfres o adroddiadau interim. Gall fod yn briodol trafod y mater yn y cyngor partneriaeth ond bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar ganlyniad y trafodaethau rhwng Edwina Hart a Gweinidogion yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid wyf yn sicr a ydych yn gofyn am drafodaeth ar Brosiect Draig yn y cyngor partneriaeth neu yn y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Rwyf wedi gofyn am gyngor fy swyddogion a chredaf y byddai'n fwy priodol ei drafod yn y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Deallaf eich bod yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar adroddiad blynyddol y cynllun partneriaeth llywodraeth leol ar 3 Tachwedd 2004, a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 22 Rhagfyr 2004

**At Gwenda Thomas:**

Yn ystod y ddadl ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn ar Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2003-04, gwnaethoch fynegi'r farn fod yn rhaid i bartneriaethau diogelwch cymunedol chwarae rôl o ran amddiffyn plant ac y dylai'r mater hwn ymddangos yn rheolaidd ar agendâu'r cyngor partneriaeth yn y dyfodol.

Ysgrifennais at Jane Hutt AC i ofyn am ei sylwadau ar y cynnig. Mae Jane bellach wedi ymateb ac mae'n cefnogi'n llawn unrhyw fenter i annog sefydliadau i rannu gwybodaeth ac i hyrwyddo arferion gorau o ran amddiffyn plant. Mae'n fodlon i'r cyngor partneriaeth drafod y mater hwn yn ei gyfarfodydd. Bydd yn dda gennych glywed y bydd yn ystyried materion ehangach sy'n ymwneud â'r pynciau hyn wrth roi Deddf Plant 2004 ar waith. Mae Jane hefyd yn mynd ati i sefydlu byrddau lleol newydd i ddiogelu plant. Bydd yr holl asiantaethau allweddol yn aelodau o'r byrddau a bydd dyletswydd statudol arnynt i gydweithio â'r awdurdod priodol sy'n darparu gwasanaethau plant ac i dalu sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad. Yn ystod 2005, byddwn yn ymgynghori ag asiantaethau eraill ar y canllawiau a'r rheoliadau a bydd hyn yn amlwg yn cynnwys materion megis rhannu gwybodaeth ac arferion gorau.

Mae Jane hefyd wedi awgrymu y gallech ystyried y materion hyn yn y lle cyntaf fel rhan o'ch adolygiad ar ddiogelu plant sy'n agored i niwed a gwneud argymhellion penodol yn eich adroddiad iddi eu hystyried ymhellach.